# Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru




Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn datblygu ein strategaeth hirdymor, 'Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu', i helpu i lywio ein gwaith yng Nghymru. Lansiwyd y drafft ymgysylltu gydag Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn y Senedd ym mis Tachwedd. Yn dilyn y lansiad cafwyd gweithdy yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd ym mis Tachwedd i ystyried sut y gall dyfrffyrdd helpu i sicrhau manteision ehangach i'r cyhoedd.





Yn ogystal â datblygu'r strategaeth hon rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o gamlesi ac afonydd yng Nghymru a'r cyfleoedd maent yn eu cynnig mewn perthynas ag adfywiad economaidd ac iechyd a lles.

Roeddem yn falch iawn bod **Camlas Mynwy ac Aberhonddu** wedi cael ei henwi fel yr atyniad mwyaf poblogaidd ymhlith ymwelwyr yn Arolwg Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n amlygu pwysigrwydd y gamlas i dwristiaeth. I gadarnhau hyn, aethom ati i ddatblygu rhaglen 'Llysgenhadon Mynwy ac Aberhonddu' mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nod y rhaglen yw gwella gwybodaeth ein staff, gwirfoddolwyr a busnesau ar hyd y gamlas am hanes y gamlas, ei bywyd gwyllt a gweithgareddau yn yr ardal.

Gan adeiladu ar lwyddiant dathliadau *MonBrec 200*, llwyddodd dau animeiddiad digidol a dafluniwyd ar chwistrell dŵr 10 metr o uchder ym Masn Aberhonddu i ddenu 1,000 o bobl i'r ddyfrffordd. Bu pobl ifanc yn helpu i greu'r ail osodiad, gan weithio gydag artistiaid proffesiynol i ddysgu sgiliau a thechnegau newydd.

Pobl ifanc, ac athrawon, yw ffocws ein hadran bwrpasol ar ein gwefan addysg hefyd - **Fforwyr Glandŵr, Explorers in Wales.** Mae yna adnoddau dysgu a gweithgareddau diogelwch dŵr Cymraeg a Saesneg sydd wedi'u cysylltu â'r Cwricwlwm Cymreig ac wedi'u cynllunio i annog ysgolion a grwpiau i ymweld ag Aberhonddu a Glanfa Goetre. Mae'r ymweliadau hyn yn cael eu harwain gan ein timau o wirfoddolwyr addysg yn aml.

Roeddem yn falch iawn o gael cymorth Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Sioe Fawr wrth lansio **pecyn cerdded i'r teulu** newydd ar gyfer Glanfa Goetre. Mae'r pecyn, a grëwyd mewn partneriaeth â Ramblers Cymru, yn ceisio gwella iechyd trwy ymarfer corff, sy'n un o themâu allweddol ein Cynhadledd Dyfrffyrdd a gyd-noddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac a gynhaliwyd ym mis Mehefin.



Cafodd **cynlluniau adfywio** hirdymor ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu rhwng Cwmbrân a Chrindai hwb, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn sicrhau £8.2 miliwn trwy Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cafodd y prosiect adroddiad cadarnhaol gan Dasglu Adfywio Canol Dinas Casnewydd, gan gadarnhau pwysigrwydd strategol y gamlas. I gefnogi'r uchelgais hon, aethom ati i fuddsoddi £139,000, ochr yn ochr â Dŵr Cymru, Severn Trent, Sefydliad Gwy ac Wysg a Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn cyflawni gwaith monitro yn y maes, modelu a dadansoddi data amgylcheddol i nodi'r lefel gynaliadwy o ddŵr y gellir ei dynnu o Afon Wysg, prif ffynhonnell ddŵr y gamlas.

Mae'r **glaw trwm** yn ystod misoedd cyntaf 2014 wedi cael effaith andwyol ar ein camlesi a'u bywyd gwyllt. Perodd tirlithriad ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn Llan-ffwyst fygythiad difrifol i'r gamlas a chartrefi cyfagos. Crëwyd problemau pellach o ganlyniad i fynediad cyfyngedig i'r safle. Roedd yr ateb i'r broblem, a gostiodd £1 miliwn, yn golygu gosod 500 o binnau pridd deg metr o hyd yn y ddaear o dan y gamlas. Yn sgil tirlithriad llai o faint ar Gamlas Llangollen, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, bu ein timau peirianneg ac amgylcheddol yn gweithio gyda'i gilydd i geisio osgoi aflonyddu ar frochfa moch daear ar y safle.

Mae'r gwaith o adfer Camlas Trefaldwyn yn rhan allweddol o'n strategaeth i greu dyfodol newydd ar gyfer y gamlas, er lles bywyd gwyllt, treftadaeth a chymunedau lleol. Ym mis Hydref, cawsom drwydded cam 1 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n golygu ein bod ni gam yn nes at sicrhau grant o £3.7 miliwn fel rhan o brosiect gwerth £6 miliwn i gyflawni cam nesaf y prosiect trawsnewidiol hwn.

Ochr chwith uchaf: Edwina Hart AC
Chwith: Traphont Ddŵr Pontcysyllte
Uchod: Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Mae denu **pobl newydd** i'r dyfrffyrdd wedi bod yn thema allweddol eleni. Bu John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, a Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, yn helpu i lansio ein rhaglen tair blynedd o artistiaid preswyl ar hyd ein dyfrffyrdd yng Nghymru yn y Sioe Fawr. Mae ein hartistiaid cyntaf, Andrew Dodds ac Alan Goulbourne, y naill yn gweithio ar Gamlas Llangollen a'r llall ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, wrthi'n archwilio safbwyntiau newydd.

Buom hefyd yn gweithio gyda Croeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Canŵ Cymru i nodi'r potensial i deuluoedd gymryd rhan mewn **chwaraeon padlo** ar gamlesi Cymru, gan fanteisio ar natur ragweladwy amodau a mynediad.

Mae ein huchelgais i wneud ein camlesi'n fwy hygyrch i bawb a chysylltu cymunedau ar lan y camlesi wedi parhau. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, aethom ati i fuddsoddi £226,000 i gwblhau'r rhan olaf milltir o hyd o lwybr tynnu Camlas Llangollen ym Mhentrefelin. Yn Nhrefor, ar yr un gamlas, mae cymorth gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, Taith a Threth Dirlenwi Gymunedol WREN wedi ein galluogi i adeiladu ramp newydd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd rhwng Pont Postles a'r llwybr tynnu, gan sicrhau bod pobl o bob gallu yn gallu mwynhau Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte. Yn ogystal, cafwyd £406,000 i adfer a gwella 3 milltir o lwybr tynnu rhwng y Trallwng a'r Drenewydd a rhwng Glanfa Buttington a Pool Quay ar **Gamlas Trefaldwyn**.

Yn olaf, bydd ein partneriaeth ymchwil 10 mlynedd o hyd gyda **Prifysgol Caerdydd** yn arwain at leoliadau i fyfyrwyr, cyfleoedd gwirfoddoli, cyfleoedd cyfnewid staff a chyfres o seminarau wedi'u noddi yng Nghymru i helpu i ledaenu arfer gorau o ran mesur a gwerthuso effaith.